Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Trefnannau

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Trefnannau

Ysgol fach annibynnol arbennig sydd wedi'i lleoli ychydig y tu allan i'r Trallwng yw Ysgol Trefnannau. Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 16 oed ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol y mae angen lleoliad addysgol llai, a mwy strwythuredig, arnynt. Agorwyd yr ysgol ym mis Medi 2018 ac mae'n un o ddwy ysgol a berchnogir gan Keys Child Care Group.

Mae chwe disgybl yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. Mae tri disgybl yn fechgyn a thair merch, sydd wedi eu lleoli gan awdurdodau lleol o Gymru a Lloegr. Mae gan leiafrif o'r disgyblion hyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan bob un o'r chwe disgybl statws derbyn gofal ac maent yn preswylio mewn chwech o gartrefi preswyl Keys Child Care. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith.

Bu'r pennaeth yn ei swydd er 2017. Mae cyfarwyddwr addysg yn goruchwylio'r ddarpariaeth addysg ar draws dwy ysgol y cwmni yng Nghymru. Gall yr ysgol gynnig hyd at 12 o leoedd, gydag uchafswm o bedwar disgybl ym mhob dosbarth. Mae dau athro dosbarth, un tiwtor, a dau gynorthwyydd cymorth dysgu amser llawn.

Hwn yw'r ymweliad monitro blynyddol cyntaf ers i'r ysgol agor.

## Prif ganfyddiadau

### *Cryfderau*

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da yn unol â'r camau gweithredu a argymhellwyd o'r ymweliad dilyniant i gofrestru.
- Mae gan yr ysgol ystod berthnasol o bolisïau defnyddiol ar waith, sy'n dechrau cefnogi ac arwain arferion yn briodol. Mae staff yn addasu polisïau yn foddhaol i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Er enghraifft, mae rhoi'r polisi ymddygiad ar waith yn cymell llawer o ddisgyblion yn llwyddiannus i hunanreoleiddio eu hymddygiad.
- Mae'r ysgol wedi byrhau amseroedd gwersi i gynnal ffocws disgyblion, ac ymgysylltu â nhw yn fwy effeithiol. Yn ychwanegol, mae byrhau amser egwyl ac amser cinio wedi lleihau nifer yr achosion o ymddygiad gwael ar yr adegau llai strwythuredig hyn.
- Mae staff yn defnyddio ystod o strategaethau yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion i gael hunanreolaeth. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd i chwarae gemau ysgogiadol gyda staff neu gwblhau gweithgareddau crefft sy'n helpu disgyblion i ganolbwyntio o'r newydd.
- Mae'r cwricwlwm yn dechrau adlewyrchu anghenion a galluoedd y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn gliriach.
- Mae'r ysgol yn defnyddio gwybodaeth asesu gwaelodlin yn dda i lywio cynlluniau dysgu disgyblion unigol. Mae athrawon yn defnyddio'r cynlluniau dysgu hyn yn effeithiol i ddarparu gweithgareddau perthnasol, diddorol a chymhellol sy'n ymgysylltu'n bwrpasol â llawer o ddisgyblion am fwyafrif yr amser.
- Mae'r pennaeth a'r staff wedi sefydlu cysylltiadau defnyddiol â cholegau a gweithleoedd lleol i ddarparu ar gyfer diddordebau a dyheadau disgyblion unigol yn llwyddiannus.

### *Meysydd i'w datblygu*

- Nid yw'r cynllun gwaith ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) wedi'i ddatblygu'n ddigonol, ac mae'r cynllunio ar gyfer cyflwyno gwersi perthnasol yn anghyson ar draws yr ysgol.

- Caiff targedau cynlluniau addysg unigol (CAUau) disgyblion eu cyflawni'n anghyson ar draws gwersi.

### Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

**A1 Gryfhau'r cynllun gwaith ar gyfer ABCh**

**A2 Sicrhau dull mwy cyson o gyflawni targedau CAU disgyblion ar draws yr ysgol**

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

### *Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 3.

### *Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

### *Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### *Safon 6: Darparu gwybodaeth*

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### *Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion*

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/07/2019